The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 – adran 92**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited (yr Ymgeisydd) am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf. EN010112).**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol (CAH) yn ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP).**

**Dydd Mawrth 28 Chwefror 2023 am 9:30am.**

Rhoddwyd hysbysiad o ddyddiad, amser, lleoliad a chyfarwyddiadau presenoldeb ar gyfer y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol yn llythyr yr Awdurdod Archwilio (ExA) dyddiedig 7 Chwefror 2023.

## Agenda

### 1. Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawiad

### 2. Achos yr Apelydd ar gyfer Caffaeliad Gorfodol a Meddiant Dros Dro

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno a chyfiawnhau ei achos ar gyfer Caffaeliad Gorfodol a Meddiant Dros Dro yn gryno, gan gynnwys mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Nodi'r pwerau a geisir a'u dibenion
- Darpariaethau perthnasol y dDCO
- Sut byddai'r profion statudol a pholisi perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (DC2008) (gan gynnwys a122, a123, a127, a132 ac a138) a chanllawiau'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol yn ymwneud â chaffael dros dro yn cael eu bodloni
- Strategaeth / meini prawf yr Ymgeisydd ar gyfer penderfynu p'un a ddylid ceisio pwerau Caffaeliad Gorfodol tir, Caffaeliad Gorfodol hawliau neu Feddiant Dros Dro o dir
- Ystyried dewisiadau amgen i Gaffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro
- Ystyriaethau hawliau dynol

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau yn ymwneud ag achos yr Ymgeisydd ar gyfer Caffaeliad Gorfodol a Meddiant Dros Dro (gweler **Atodiad A**).

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwahodd cyflwyniadau gan Unigolion yr Effeithir Arnynt (APau) sydd eisiau codi materion cyffredinol yn ymwneud ag achos yr Apelydd ar gyfer Caffaeliad Gorfodol a Meddiant Dros Dro. Fodd bynnag, cedwir cyflwyniadau ar gyfer safleoedd penodol ar gyfer eitem 3 a 4 ar yr agenda.

Bydd gan yr Ymgeisydd hawl i ymateb.

### 3. Materion yn ymwneud â safleoedd penodol i'r Ymgeisydd

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd roi diweddariad ar sut mae trafodaethau ag Unigolion yr Effeithir Arnynt yn dod yn eu blaenau a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd am y trafodaethau a materion yn codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar (gweler **Atodiad A**).

## 4. Sylwadau yn ymwneud â safleoedd penodol gan Unigolion yr Effeithir Arnynt

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i Unigolion yr Effeithir Arnynt amlinellu'n gryno unrhyw bryderon sydd ganddynt o hyd yn ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro o'r tir y mae ganddynt fuddiant ynddo, nad yw'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael â nhw.

Gallai'r Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau i Unigolion yr Effeithir Arnynt am faterion sy'n deillio o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

Bydd gan yr Ymgeisydd hawl i ymateb.

## 5. Ymgymerwyr Statudol

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd grynhoi unrhyw faterion sy'n weddill yn deillio o sylwadau gan Ymgymerwyr Statudol.

Bydd unrhyw Ymgymerwyr Statudol neu gyrff perthnasol arall sy'n bresennol ac sy'n eisiau siarad mewn perthynas â gwrthwynebiad neu fater a godwyd sy'n berthnasol i effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ymgymeriad, cyfarpar neu dir yn cael eu gwahodd i roi sylwadau llafar i'r Awdurdod Archwilio.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau i'r Ymgymerwyr Statudol neu unrhyw gyrff perthnasol eraill, a'r Ymgeisydd, am faterion sy'n deillio o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar (gweler **Atodiad A**).

Bydd gan yr Ymgeisydd hawl i ymateb.

## 6. Tir y Goron

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd (ac unrhyw rai o awdurdodau'r Goron sy'n bresennol) roi diweddariad ar faterion yn ymwneud â thir y Goron ac a135 DC2008.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn cwestiynau yn ymwneud â materion tir y Goron (gweler **Atodiad A**).

## 7. Cyllid

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd roi crynodeb byr a chynghori ar unrhyw ddiweddariadau i'r Datganiad Cyllid.

Gall yr Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau am faterion cyllid.

## 8. Adolygiad o faterion a chamau sy'n codi

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn mynd i'r afael â sut y dylid bodloni unrhyw gamau a roddir ar yr Ymgeisydd.

9. **Unrhyw fater arall**

10. **Diwedd y gwrandawiad**

**Nodiadau ar gyfranogiad, cynnal a rheoli'r gwrandawiad**

Caiff yr holl Unigolion yr Effeithir Arnynt eu gwahodd i gymryd rhan yn y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw hefyd a bydd dolen i wylio'r ffrwd fyw yn cael ei rhoi ar dudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn nes at ddyddiad y digwyddiad.

Mae gan bob un o'r Unigolion yr Effeithir arnynt hawl i wneud sylwadau llafar yn y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar bŵer yr Awdurdod Archwilio i reoli'r gwrandawiad.

Byddai'n gynorthwyol i'r Awdurdod Archwilio pe byddai'r canlynol yn cymryd rhan yn y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol:

- **Yr Ymgeisydd** – gan gynnwys cynrychiolwyr sydd mewn sefyllfa i drafod y materion ar yr agenda
- **Unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt** – sydd eisiau trafod materion yn ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro
- **Ymgymerwyr Statudol** – gan gynnwys Network Rail Infrastructure Limited, National Grid Electricity Transmission plc (NGET), Dŵr Cymru, North Hoyle Wind Farm Ltd, Rhyl Flats Wind Farm Ltd a SP Manweb plc
- **Unrhyw rai o awdurdodau'r Goron** – sydd eisiau trafod materion yn ymwneud â thir y Goron

Gall cyfranogwyr gael eu cynrychioli'n gyfreithiol, os ydynt yn dymuno, ond caiff y gwrandawiad ei gynnal i sicrhau nad oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae arweiniad dan DC2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn amodi mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn holi, profi ac yn asesu'r dystiolaeth trwy holi'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff y materion eu trafod ar y diwrnod y trefnwyd iddynt gael eu trafod. Bydd y gwrandawiad yn dod i ben cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn bod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi'u trafod. Os oes materion ychwanegol i fynd i'r afael â nhw neu gyflwyniadau sy'n mynd â chryn amser mewn unrhyw wrandawiad, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i gwestiynau ysgrifenedig.

Canllaw yn unig yw'r agenda. Nid yw wedi'i chynllunio i fod yn gyfyngol nac yn hollgynhwysol. Gallai'r Awdurdod Archwilio ychwanegu materion eraill i'w hystyried, newid y drefn y caiff materion eu hystyried ynddi a bydd yn ceisio dyrannu digon o amser i bob mater er mwyn gallu rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Nid yw diffyg trafodaeth am fater penodol mewn gwrandawiad yn atal y mater hwn rhag cael ei archwilio ymhellach, gan gynnwys gofyn cwestiynau ysgrifenedig pellach.

Caiff holl ddogfennau'r Archwiliad eu darparu â rhif adnabod unigryw at ddibenion cyfeirio a ddangosir mewn cromfachau sgwâr [].

Dylai'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar yn y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol gael ei chynnnwys mewn cyflwyniadau ôl-gwrandawiad a'i chyflwyno erbyn **dydd Mercher 15 Mawrth 2023 (Dyddiau cau 8)**.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ymdrechu i glywed yr holl gyfranogwyr ac ymdrin â'r holl gwestiynau perthnasol. Fodd bynnag, os nad oes modd i'r Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol, neu rannau ohono, fynd rhagddo/rhagddynt, er enghraifft am resymau technegol, gall yr Awdurdod Archwilio gwblhau busnes trwy broses ysgrifenedig.

**Diben y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol**

Prif ddiben y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol yw:

- Galluogi'r Awdurdod Archwilio i ymholi i achos yr Ymgeisydd ar gyfer Caffaeliad Gorfodol o dir neu hawliau dros dir a / neu Feddiant Dros Dro o dir
- Cyflawni dyletswydd yr Awdurdod Archwilio i glywed unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt sydd am gael eu clywed
- Galluogi'r Awdurdod Archwilio i ystyried p'un a fodlonwyd y profion cyfreithiol a pholisi perthnasol sy'n gymwys i gynigion Caffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro ai peidio
- Mynd i'r afael ag unrhyw faterion cysylltiedig

**Microsoft Teams**

Bydd y Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol yn cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mae rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau rhithwir yn ymwneud â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w gweld yn Nodyn Cyngor 8.6 yr Arolygiaeth Gynllunio: Digwyddiadau archwilio rhithwir:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/nodyn-cyngor-8-6-digwyddiadau-archwilio-rhithwir/

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys fideo byr ynglŷn â chymryd rhan mewn digwyddiad rhithwir yr Arolygiaeth Gynllunio, i'w gweld ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-virtual-events-guide-to-participating

Cysylltwch â Thîm yr Achos os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddefnyddio Microsoft Teams neu os hoffech gynnal prawf ar eich trefniadau mynediad:

awelymor@planninginspectorate.gov.uk

0303 444 5000

**Atodiad A**

Bydd cwestiynau i'r Ymgeisydd yn cynnwys y materion canlynol, ond ni fyddant wedi'u cyfyngu iddynt, o reidrwydd:

**Eitem 2 ar yr Agenda**
*<u>Pwerau a geisir:</u>*
*Cadarnhad o'r pwerau a geisir, fel y dangos yn Nhabl 1 y Llyfr Cyfeirio (BoR) (ac ar y Cynlluniau Tir), gan gyfeirio'n benodol at fanylu ar 'hawliau newydd' yn unig, gan nodi y byddai erthyglau'r dDCO (h.y. E20, E22 ac E29) hefyd yn caniatáu i gaffael hawliau sy'n bodoli eisoes.*

*<u>Cwmpas Erthygl 27(8) y dDCO:</u>*
*Priodoldeb cynnwys darpariaeth ar gyfer y Caffaeliad Gorfodol o hawliau dros dir a nodwyd ar gyfer Meddiant Dros Dro yn unig (o ystyried bod unrhyw dir sy'n destun Caffaeliad Gorfodol o hawliau / cyfamodau cyfyngol wedi'i gynnwys yn Atodlen 7 ac y darperir ar gyfer hyn yn Erthygl 20 ac nad oes unrhyw orgyffwrdd amlwg rhwng Atodlen 6 (Meddiant Dros Dro) ac Atodlen 7 (Caffaeliad Gorfodol o hawliau)).*

*<u>A127 DC2008:</u>*
*O ran y ddogfen trafodaethau (fersiwn Terfyn Amser 6 o [REP5-025]) a ph'un a yw'n nodi'n gywir bod a128(6) yn berthnasol i saith Ymgymerwr Statudol, o ystyried mai dim ond dau ohonynt sy'n cael eu nodi fel tirfeddianwyr yn y Llyfr Cyfeirio (Network Rail Infrastructure Limited a Dŵr Cymru).*

**Eitem 3 ar yr Agenda**
*<u>Dogfen Trafodaethau:</u>*
*O ran paragraff 1 sy'n datgan bod prydleswyr a thenantiaid wedi'u rhestru islaw eu landlordiaid priodol er, er enghraifft, bod perchennog Llain 17, perchennog Llain 285 a pherchennog Llain 331 fel y dangosir yn y Llyfr Cyfeirio (fersiwn Terfyn Amser 6 o [REP5-022]) wedi'u rhestru yn y ddogfen trafodaethau, ond nad yw'r prydleswyr / tenantiaid priodol wedi'u rhestru.*

*O ran pam nad yw'r ddogfen yn cynnwys rhai deiliaid, er enghraifft y rhai sydd wedi'u rhestru dan Lain 17, Llain 285 a Llain 331 yn y Llyfr Cyfeirio?*

*O ran pam y mae rhai Unigolion yr Effeithir Arnynt wedi'u rhestru sawl gwaith yn y ddogfen.*

*O ran pam y mae cyflwyniadau [REP5-036] a [REP5-037] yn nodi dyddiad gwahanol ar gyfer y trafodaethau diweddaraf i'r dyddiad a nodir yn y ddogfen.*

*O ran pam nad yw cofnodion 28 a 29 yn y Rhestr Caffaeliadau Gorfodol (fersiwn Terfyn Amser 6 o [REP5-027]) yn ymddangos yn y ddogfen (wrth nodi hefyd nad yw'r sefydliad dan gofnod 29 yn ymddangos yn y Llyfr Cyfeirio).*

*P'un a allai'r Ymgeisydd, er hwylustod ac er nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Llyfr Cyfeirio, gynnwys adran ar wahân yn y ddogfen yn manylu ar drafodaethau â North Hoyle Wind Farm Ltd (NHWF) a Rhyl Flats Wind Farm Ltd (RFWF).*

*Llyfr Cyfeirio:*
*O ran p’un a yw’n briodol cynnwys yr asiant a gyflwynodd [AS-048] yn y Llyfr Cyfeirio.*

*O ran p’un a yw’r Ymgeisydd sydd cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach i’r buddiannau ‘anhysbys’ mewn rhai lleiniau, fel Llain 96, 97 a 98.*

*Rhestr Caffaeliadau Gorfodol:*
*Gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyflwyniadau, gan gynnwys mewn perthynas â’r A55 [REP1-097], p’un a ddylid cynnwys Gweinidogion Cymru, fel awdurdod y Goron ar gyfer buddiannau tir sy’n gysylltiedig â lleiniau’r A55 ac fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer yr A55, ar y rhestr (neu a yw 'Llywodraeth Cymru' yn unig yn ddigonol)?*

*Er hwylustod, p’un a ellid copïo’r wybodaeth fel y mae’n ymddangos yn y ddogfen trafodaethau i’r rhannau perthnasol o’r Rhestr Caffaeliadau Gorfodol?*

*Materion yn ymwneud â lleiniau:*
*O ran sut byddai’r Ymgeisydd (neu unrhyw dirfeddiannwr dilynol) yn cael ei atal rhag cau’r hawl dramwy gyhoeddus dros Lain 416 (y cynigir Caffael Gorfodol o dir ar ei gyfer) yn barhaol yn y dyfodol.*

*O ran Llain 416 a 417 a chyflwyniadau yn ymwneud â’r lleiniau hyn, gan gynnwys yn ymwneud â’r canlynol: angenrheidrwydd Caffaeliad Gorfodol o’r holl dir; a’r gofynion polisi perthnasol sy’n ymwneud â chwantwm gwella bioamrywiaeth.*

*O ran eglurhad yn ymwneud â’r Ymgeisydd yn sôn am dir arall sy’n cael ei ffermio gan Faenol Broper [REP1-007].*

*O ran pryderon Unigolyn yr Effeithir Arno [REP5-034] ynghylch y cyfnodau amser ar gyfer y Caffaeliad Gorfodol o hawliau a geisir a’r angenrheidrwydd am leiniau penodol ar dir y Gorchymyn (h.y. Llain 142 ac 145).*

**Eitem 5 ar yr Agenda**
Darpariaethau Amddiffynnol:
*O ran unrhyw anghydfodau sy’n weddill rhwng Network Rail Infrastructure Ltd a’r Ymgeisydd a’r atebion posibl; y goblygiadau os na chaiff darpariaethau amddiffynnol eu cytuno erbyn diwedd yr Archwiliad; p’un a roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio darpariaeth amddiffynnol yn debyg i dDCO eraill a wnaed (h.y. Norfolk Boreas a Hornsea Three).*

*O ran unrhyw anghydfodau sy’n weddill rhwng Dŵr Cymru / NGET / NHWF / RFWF a’r Ymgeisydd a’r atebion posibl; a’r goblygiadau os na chaiff darpariaethau amddiffynnol eu cytuno / os nad oes modd dod i gytundebau eraill â’r partïon hyn erbyn diwedd yr Archwiliad.*

**Eitem 6 ar yr Agenda**
*Caniatâd y Goron:*
*O ran y goblygiadau ar gyfer Datblygiad Arfaethedig os nad oes modd cael caniatâd awdurdodau perthnasol y Goron erbyn diwedd yr Archwiliad.*